Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 19 Hydref 2020, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer) Y Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Mike Van Der Eijk ac Ifan Wyn. Ynghyd â'r Cynghorwyr Sir Bobby Feeley ac Emrys Wynne a thri aelod o'r cyhoedd.

317. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

318. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Jabez Oakes ddatgan buddiant yn Eitem 17ii – Cais am Gymorth Ariannol gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am ei fod yn gweithio i'r sefydliad, a gwnaeth y Maer, y Cynghorydd Gavin Harris, ddatgan buddiant yn yr eitem Rhan 2 ynghylch cais am drwydded i'r Hen Lys fel deiliaid trwydded.

319. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn neu'n ymwneud â'r digwyddiadau isod:

14.09	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio
22.09	Ffilmio cerddorion yn yr Hen Lys, gan gadw pellter cymdeithasol
24.09	Cyfweliad byw ar Radio Cymru ynghylch y Felodrom
28.09	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys

320. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Cyfarfodydd gyda Kate Harcus ynghylch gweithgareddau yn yr Hen Lys yn y dyfodol Yn yr Hen Lys ar gyfer digwyddiad Drysau Agored, 26 Medi Tri chyfarfod Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom Cyfarfod gyda Chymdeithas Hanes Lleol Rhuthun ynghylch cymorth posibl gyda gweithgareddau'r Hen Lys
Cyng. Stephen Beach	Yn yr Hen Lys ar gyfer digwyddiad Drysau Agored, 26 Medi.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfodydd Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod efo'r Cyng. Anne Roberts yn y Ganolfan Arddio i drafod y dewis planhigion.
Cyng. Ian Lewney	Dim i'w adrodd.
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn Banc Bwyd.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch ynghylch Drysau Agored, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod efo'r Cyng. Menna Jones yn y Ganolfan Arddio i drafod y dewis planhigion a Chyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom a thrafod y Strategaeth Gyfathrebu gyda'r Cyng. Dave Snape.

Cyng. Mike Van Der Eik	Cyfarfodydd ynghylch y prosiect Bwyd Bendigedig a'r Sied Trwsio a Rhannu arfaethedig.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfodydd i drafod y Strategaeth Gyfathrebu gyda'r Cyng. Ifan Wyn.

321. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN
Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne wedi cyflwyno adroddiad.

322. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau, yn ddarostyngedig i fater o gywirdeb ynghylch yr aelodau'n bresennol, fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2020 yn gofnod cywir.*

323. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

324. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020.
PENDERFYNWYD: *cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 fel cofnod cywir.*

325. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020.
PENDERFYNWYD: *cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 fel cofnod cywir.*

326. SEDD WAG AR GYNGOR TREF RHUTHUN
Hysbyswyd yr aelod fod Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau na dderbyniwyd cais gan 10 etholwr i gynnal etholiad i lenwi'r swydd wag.
PENDERFYNWYD*: cyhoeddi'r hysbysiad i lenwi'r swydd wag trwy gyfethol ac ystyried ceisiadau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref.*

327. CYFARFODYDD CYNGOR TREF RHUTHUN 2021
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyddiadau arfaethedig y cyfarfodydd yn 2021, dyddiad ar gyfer Cyfarfod Blynyddol 2020 a throsglwyddo rôl y Maer a'r Dirprwy Faer. Yn sgîl y cyfyngiadau coronafeirws Covid-19 yn parhau i amharu ar ddigwyddiadau, cynigiodd y Cynghorydd Heather Williams fod y Cyngor Gavin Harris yn parhau fel Maer tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2021 ac eiliwyd hynny. Cynigiodd hefyd ohirio Cinio Elusennol y Maer tan 2022. Gofynnodd y Cynghorydd Jabez Oakes am bleidlais wedi'i chofnodi, yn unol â chymal 12 yn Rheolau Sefydlog Cyngor Tref Rhuthun.
Pleidlais wedi'i chofnodi: Cyng. Gavin Harris (Maer) - atal, Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer) – o blaid, Cyng. Stephen Beach – methu pleidleisio oherwydd problem dechnegol, Cyng. Jim Bryan – o blaid, Cyng. Ken Hawkins – o blaid, Cyng. John Wynne Hughes - yn erbyn, Cyng. Menna Jones – o blaid, Cyng. Ian Lewney - o blaid, Cyng. Jabez Oakes – atal, Cyng. Robert Owen-Ellis - o blaid, Cyng. Anne Roberts - o blaid, Cyng. Dave Snape - yn erbyn, Cyng. Mike Van Der Eijk – o blaid a'r Cyng. Ifan Wyn – yn erbyn. Canlyniad: 8 o blaid, 2 wedi atal eu pleidlais a 3 yn erbyn.
PENDERFYNWYD*: fod y Cynghorydd Gavin Harris yn parhau fel Maer tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2021 a gohirio dyddiad Cinio Elusennol y Maer tan Ebrill 2022. Cytunwyd ar ddyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau a bydd gwefan y Cyngor yn cael ei diweddaru'n unol â hynny.*

328. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Adroddodd y Maer fod y Gweithgor yn parhau i gyfarfod bob pythefnos, a bod cynnydd yn cael ei wneud gyda gosod y deunyddiau arddangos a dehongli. Roedd gwaith yn parhau i sicrhau y byddai popeth yn ei le ar gyfer agor i'r cyhoedd yng Ngwanwyn 2021.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad.*

329. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn benodol yr adran yn ymwneud â lwfansau i Gynghorau Tref a Chymuned. Awgrymodd aelod y dylai'r Grŵp Craffut ar Ddogfennau edrych ar y cynnwys yn fanwl ac adrodd yn ô li gyfarfod nesaf y Cyngor llawn.

***PENDERFYNWYD**: cyfeirio'r adroddiad i'r Grŵp Craffu ar Ddogfennau ei ystyried yn fanwl ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Cyngor.*

330. STRATEGAETH GYFATHREBU CYNGOR TREF RHUTHUN

Darparwyd diweddariad i'r aelod ynghylch lle roedd pethau arni o ran y Strategaeth Gyfathrebu. Awgrymwyd fod angen adolygu hwn un waith eto cyn ei lunio'n derfynol a'i fabwysiadu gan y Cyngor.

***PENDERFYNWYD:** y dylai'r aelodau adolygu'r ddogfen ac anfon sylwadau at y Clerc a/neu'r Cynghorydd Dave Snape erbyn 26 Hydref i alluogi'r gweithgor ddiweddaru'r strategaeth.*

331. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2020.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2020.*

332. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA (bancio ar-lein)	Cyng. Dave Snape	Tanysgrifiad Microsoft Office 365 – Mawrth, Ebrill, Mai a Mehefin 2020	*	£75.84
BA	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau dyfrio – Mehefin 2020		£1,134.00
BA	Llanfwrog CIC	Gwasanaeth torri glaswellt – Gorffennaf 2020		£369.84
BA	Cyllid a Threthi Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£719.61
BA	Hill & Roberts	Ffi gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres – Gorffennaf 2020	*	£84.00
BA	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£41.90
BA	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol		£0.02
BA	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£0.14

O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

BA	BT Business	Band eang a ffôn Cwmwl	*	£67.19
BA	Richard Williams (Deganwy) Ltd	Eitemau ar gyfer yr Hen Lys	*	£4.14
BA	Scottish Power	Ffioedd trydan yn yr Hen Lys, 18.03.20 – 19.06.20		£235.94

333. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan:

i. Cymdeithas Cymuned Llanfwrog am £1,000.00 i adnewyddu ffens derfyn wedi dadfeilio gyda ffens atal da byw
ii. Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am £2,000.00 i gyllido costau swyddfa Rhuthun/y trefniadau gweithio o gartref cyfredol.

O ran y cais cyntaf, holodd yr aelodau am berchnogaeth y ffens a ph'un ai oedd yn gyfrifoldeb yr Asiantaeth Cefnffyrdd, a oedd asesiad risg iechyd a diogelwch yn bodoli a thynnwyd sylw nad oedd yr adroddiad ariannol wedi'i gadarnhau. Cynigiwyd ac eiliwyd beidio â rhoi cymorth ariannol.

O ran yr ail gais, nododd yr aelodau fod CAB yn darparu gwasanaeth rhagorol ac y byddai'r galw am gyngor yn debygol o gynyddu oherwydd effeithiau'r pandemig coronafeirws cyfredol. Cynigiwyd ac eiliwyd darparu'r cymorth ariannol.

PENDERFYNWYD*: gwthod cais Cymdeithas Cymuned Llanfwrog Community am £1,000.00 a derbyn cais Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am £2,000.00 i gyllido costau swyddfa Rhuthun a'r trefniadau gweithio o gartref cyfredol.*

334. CYNNIG SIED RHANNU A THRWSIO

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adborth gan y gweithgor o ran y cynnig i sefydlu Sied Rhannu a Thrwsio ar gyfer Rhuthun, Llangollen a'r Wyddgrug. Mynegodd y Cynghorwyr Anne Roberts a John Wynne Hughes bryderon am effaith y cynllun arfaethedig ar fusnesau Rhuthun. Dywedodd y Cynghorydd Mike van der Eijk ei fod wedi gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch cynlluniau tebyg yng Nghaerdydd, Llanelli a Dyfnaint er mwyn sicrhau fod y cynllun yn cynnal cydbwysedd rhwng anghenion busnesau a thrigolion. Cynigiodd gyfnod i oedi a myfyrio am y cynnig ac ymgysylltu gyda busnesau a thrigolion lleol i edrych ar y manteision potensial i fusnesau a chymunedau, ac eiliwyd hynny. Gofynnodd y Cynghorydd Oakes am gofnodi'r bleidlais.

Pleidlais wedi'i chofnodi: Cyng. Gavin Harris (Maer) – o blaid, Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer) – atal, Cyng. Stephen Beach – yn erbyn, Cyng. Jim Bryan – yn erbyn, Cyng. Ken Hawkins – o blaid, Cyng. John Wynne Hughes - yn erbyn, Cyng. Menna Jones – yn erbyn, Cyng. Ian Lewney - o blaid, Cyng. Jabez Oakes – o blaid, Cyng. Robert Owen-Ellis - o blaid, Cyng. Anne Roberts - yn erbyn, Cyng. Dave Snape - o blaid, Cyng. Mike Van Der Eijk – o blaid a'r Cyng. Ifan Wyn – o blaid. Canlyniad: 8 o blaid, 1 bleidlais wedi'i hatal and 5 yn erbyn.

PENDERFYNWYD*: casglu rhagor o wybodaeth ac ymgynghori gyda busnesau a thrigolion lleol cyn penderfynu a yw Cyngor Tref Rhuthun yn dymuno cefnogi'r cynllun arfaethedig.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid ystyried yr eitem a ganlyn yn breifat.

335. CAIS AM DRWYDDED YR HEN LYS

Hysbyswyd yr aelodau am y rheswm am dynnu'r cais am drwydded mangre yn ôl a thrafodwyd datganiad ynghylch hyn.

PENDERFYNWYD*: cytuno ar y datganiad arfaethedig yn ddarostyngedig i fân ddiwygiad.*

336. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 16 Tachwedd 2020 am 7pm.*